**Ennill taleb am gwblhau cyrsiau OpenLearn**

**Telerau ac amodau**

I gymryd rhan yn y wobr hon, rhaid i chi fod wedi cofrestru drwy'ch coleg fel cyfranogwr y Rhaglen Gyfoethogi Genedlaethol. Siaradwch â'ch tiwtor neu hyfforddwr cynnydd os ydych angen cymorth wrth gofrestru.

Hefyd, bydd angen i chi fod wedi creu cyfrif OpenLearn yn defnyddio'r un manylion a roesoch ar ffurflen gofrestru'r Rhaglen Gyfoethogi Genedlaethol.

Cynhelir y wobr hon yn dymhorol hyd at 30/06/2026. Ar ôl i'r wobr gau ar ddiwedd bob tymor, byddwn yn rhoi un daleb gwerth £100 ac un daleb gwerth £50 fel gwobr.

Byddwn yn rhoi taleb gwerth £100 i'r unigolyn sydd wedi cwblhau'r nifer fwyaf o gyrsiau OpenLearn y tymor hwnnw.

Byddwn yn rhoi taleb gwerth £50 i'r unigolyn sydd wedi cwblhau'r ail nifer fwyaf o gyrsiau OpenLearn y tymor hwnnw.

Os yw hi'n gyfartal, gyda mwy nag un unigolyn yn gymwys i ennill y daleb o £100 neu £50, caiff yr enillydd ei ddewis ar hap o blith y rhai sy'n gymwys i ennill.

Bydd y daleb yn cael ei phostio i'r enillwyr o fewn 30 diwrnod o ddiwedd pob tymor, gan ddefnyddio'r cyfeiriad a ddarparwyd wrth gofrestru ar y rhaglen.

Ni fydd arian parod yn cael ei gynnig yn lle'r daleb.